# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## CWLS(2) 12-05 (p4)

### Dyddiad y cyfarfod: 17 Tachwedd 2005

### Amser y cyfarfod: 9:00yb tan 12:00 hanner dydd

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgor 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

#### 1. POLISI CHWARAEON

#### 1.1. Cae Ras Wrecsam

Yn ddiweddar, cyfarfum â chynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Wrecsam i drafod datblygiadau'n ymwneud â Maes y Cae Ras. Roeddwn i'n hynod falch o nodi bod perchnogaeth y Cae Ras, yn sgil y dyfarniad a wnaed yn ddiweddar yn yr Uchel Lys, wedi'i throsglwyddo'n ôl i Glwb Pel-droed Wrecsam. Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn tuag at gynnal pel-droed yn y stadiwm. Deallaf y gallai'r perchennog presennol apelio'n erbyn y penderfyniad hwn, ond rwyf wedi'i gwneud yn glir i aelodau o Gyngor Bwrdeistref Wrecsam fod Llywodraeth Cynulliad Cymru am i Faes y Cae Ras barhau i gynnal chwaraeon rhanbarthol a rhyngwladol yno.

Roeddwn yn ôl yn y Cae Ras ychydig ddyddiau ar ôl hynny, yn sefyll ar y Kop yn gwylio Wrecsam yn trechu Darlington 1-0.

#### 1.2. Gwyl Campau Dwr Nofio am Ddim

Roeddwn yn bresennol yng Ngwyl Campau Dwr Nofio am Ddim ym Mhwll Cenedlaethol Cymru Abertawe ym mis Hydref. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o'r Cynllun Nofio am Ddim i blant a phobl ifanc ac roedd yn wych o beth gweld nofwyr abl o gorff ac anabl yn cystadlu ochr yn ochr â'i gilydd. Roedd yn enghraifft ragorol o arfer gorau ac o sut y gellir trefnu diwrnod difyr o gystadlu cwbl gynhwysol. Roedd pob plentyn y siaradais ag ef wedi mwynhau'n fawr, yn enwedig y profiad o gystadlu yn y cyfleuster rhagorol hwn.

Hoffwn ddiolch i Gymdeithas Nofio Amatur Cymru a'i llongyfarch ar y ffordd yr aeth ati i drefnu'r wyl. Diolch hefyd i staff yr awdurdodau lleol, gwirfoddolwyr a rhieni a oedd wedi gwneud cymaint i sicrhau bod y digwyddiad yn llwyddiant mawr. Roedd 21 o awdurdodau lleol wedi anfon timau, a'r unig siom

oedd absenoldeb amlwg Ceredigion o'r gystadleuaeth.

### 1.3. Nofio am Ddim

Rwyf ar fin derbyn yr ail adroddiad gwerthuso dros dro ar y fenter Nofio am Ddim. Bydd copi'n cael ei rhoi yn llyfrgell y Cynulliad a bydd modd i aelodau'r cyhoedd gael copïau os gofynnant am eu gweld.

### 1.4. Partneriaeth Hamdden Awyr Agored Gogledd-orllewin Cymru

Yr egwyddor sy'n llywio Strategaeth Partneriaeth Hamdden Awyr Agored Gogledd-orllewin Cymru yw hyrwyddo'r amgylchedd awyr agored ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Nod y strategaeth yw rhoi cyfleoedd i'r rheini fel pobl iau a phobl ar y cyrion yn siroedd Ynys Môn, Conwy a Gwynedd i brofi gweithgarwch yn yr awyr agored a gweithgareddau antur. Gwneir hyn drwy ddarparu cymorth proffesiynol, creu rhwydwaith cynaliadwy o wirfoddolwyr, sefydlu 'clybiau hamdden awyr agored' a rhoi chyfleoedd i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y cynllun ennill cymwysterau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r strategaeth hon, gan roi £300,000 dros gyfnod o bedair blynedd, o 2005-06 hyd at 2008-09, i Gynllun Hyfforddi Cymru. Bellach, mae tri swyddog datblygu wedi'u recriwtio yn y Gogledd-orllewin er mwyn mynd â'r cynllun yn ei flaen. Mae'n amlwg fod nodau'r Bartneriaeth yn cyd-fynd â nodau fy strategaeth i ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac edrychaf ymlaen at weld mwy o gynnydd.

### 1.5. 2012 Y Gemau Olympaidd yn Llundain

Yn gynharach yn y mis, gwnaethom gyhoeddiad fod Gareth Hall, Prif Weithredwr presennol Awdurdod Datblygu Cymru, wedi cytuno i gynrychioli Cymru ar Grwp y Gwledydd a'r Rhanbarthau (NRG). Cynrychiolwyr o'r gwledydd cartref a rhanbarthau Lloegr yw aelodau'r Grwp hwn, sy'n bwydo i’r gwaith ar y Gemau Olympaidd yn 2012.

Yn wreiddiol, sefydlwyd y Grwp i hyrwyddo'r cais, gan weithio gyda London 2012, cwmni'r cais. Fodd bynnag, ers llwyddiant Llundain yn Singapore ym mis Gorffennaf, mae NRG yn canolbwyntio bellach ar drefnu'r Gemau a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael yn y DU.

Bydd NRG yn gweithio gyda Phwyllgor Trefnu Gemau Olympaidd Llundain (LOCOG), gan ddelio â materion yn ymwneud â'r manteision economaidd, twristiaeth, gwersylloedd i gystadleuwyr, chwaraeon anabledd, yr wyl gelfyddydol, addysg a gwirfoddoli ymysg materion eraill. Bydd Gareth Hall yn cael cefnogaeth Jonathan Jones, Prif Weithredwr Bwrdd Croeso Cymru, a bydd yn gweithio'n agos â Chyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Roedd yr NRG ymhlith y materion a drafodwyd yng Nghabinet UK Sport â Gweinidogion Chwaraeon y pedair gwlad gartref a gynhaliwyd gennym ar 2 Tachwedd. Rhoddodd yr Arglwydd Coe, Prif Weithredwr yr LOCOG, gyflwyniad i'r cyfarfod ac ailbwysleisiais ein hymrwymiad ni i weithio gyda'r

LOCOG a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i Gymru.

## 2. DIWYLLIANT

### 2.1. Arddangosfa Eryri – Gwlad yr Eryr, LlGC

Byddaf yn agor yr arddangosfa o'r enw "Eryri - Gwlad yr Eryr" yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 19 Tachwedd. Menter ar y cyd ag Academi Brenhinol Cambria yw hon sy'n arddangos gweithiau o gasgliadau'r Llyfrgell ochr yn ochr â gweithiau newydd gan aelodau'r academi. Mae ugain o weithiau celf o gasgliadau'r Llyfrgell, gan gynnwys printiau, lluniadau a pheintiadau gan arlunwyr fel J M W Turner, Richard Wilson a Syr Kyffin Williams.

### 2.2. ‘Brought to Light’ Oriel Mostyn, Llandudno

Yn ddiweddarach heddiw, byddaf yn lansio'r arddangosfa 'Brought to Light' yn Oriel Mostyn, Llandudno fel rhan o raglen 'Celf Cymru Gyfan'. Bydd yn dangos eitemau o'r casgliadau cenedlaethol mewn rhwydwaith o orielau rhanbarthol, sef: Canolfan Grefftau Rhuthun, Oriel Mostyn Llandudno, Oriel Davies yn y Drenewydd, Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe a Chastell Bodelwyddan.

Mae Oriel Mostyn wedi gwahodd saith artist o Gymru i edrych ar y casgliad cenedlaethol yng Nghaerdydd ac i ddewis gweithiau ar gyfer yr arddangosfa hon, gan gynnwys un o'u gweithiau eu hunain, i'w dangos ochr yn ochr â'r gweithiau eraill a ddewiswyd ganddynt. Y canlyniad yw arddangosfa sydd mor amrywiol ag y mae'r casgliad yn eang, gan gynnig cymysgedd hollgynhwysol o beintiadau, lluniau, celfluniau a gwaith seramig, o 1730 i'r presennol, ac yn cynnwys gweithiau gan Antonio Canaletto, Thomas Barker o Gaerfaddon, Syr Kyffin Williams ac Ivor Roberts-Jones ymhlith eraill. Dyma'r arddangosfa gyntaf o'i bath sy'n arddangos gwaith gan artistiaid cyfoes. Mae'r arddangosfa'n cael ei chynnal rhwng 18 Tachwedd a 7 Ionawr.

### 2.3. Casys Arddangos newydd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

Ar 28 Tachwedd, byddaf yn agor yn swyddogol y casys newydd ar gyfer arddangos gwaith seremig ar y balconi yn Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd. Talwyd am y casys gan arian cyfalaf ychwanegol gwerth £180, 000 a gymeradwywyd yn ystod y Flwyddyn Ariannol ddiwethaf.

### 2.4. 'Cymru wrth ei Gwaith' Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd

I ddathlu agoriad Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, mae Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd yn cyflwyno arddangosfa o ddelweddau diwydiannol o Gymru. Mae peintiadau a lluniau dyfrlliw o'r 18fed ganrif yn gofnod hanesyddol pwysig o ddatblygiad y Gymru ddiwydiannol. Maent hefyd yn dangos sut mae diwydiant wedi bod yn destun pwysig a phoblogaidd i artistiaid yng Nghymru heddiw. Cynhelir yr arddangosfa tan 8 Ionawr 2006.

## 2.5. ‘Breuddwydion Oes Victoria’ Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Caerdydd

Mae'r arddangosfa hon yn edrych ar beintiadau a gweithiau ar bapur o gasgliadau'r Amgueddfa Genedlaethol ei hun a oedd yn eiddo i gasglwyr amrywiol fel William Menelaus (1818–1882), James Pyke Thompson (1846–1897), Sir William Goscombe John (1860–1952) a Margaret Davies (1884–1963), a fu mor hael â gadael eu casgliadau i'r Amgueddfa Genedlaethol.

Bydd yna gyfle hefyd i weld gweithiau celf rhagorol Oes Victoria o gasgliadau preifat yng Nghymru. Dyma'r tro cyntaf i lawer ohonynt gael eu harddangos. Bydd y rhain yn cynnwys gweithiau Cyn-Raffaelaidd gan Holman Hunt, Millais, Rossetti a Burne-Jones; peintiadau neo-Glasurol gan Leighton, Moore ac Alma Tadema a thirluniau gan Brett,Watts ac Inchbold.

# 3. YR IAITH GYMRAEG

## 3.1. Fforwm Iaith

Roeddwn wrth fy modd gyda llwyddiant y cyfarfod cyntaf o Fforwm Iaith a gynhaliwyd ar 20 Hydref ym Mhorthmadog. Daeth tua 200 o bobl o'r ardal leol a ledled Cymru i'r cyfarfod a bu'n gyfle i drafod ffyrdd ymarferol o hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Trafodwyd amrywiaeth eang o faterion, o arwyddion dwyieithog, faint o dai fforddiadwy a oedd ar gael, Cymraeg i Oedolion a'r galw am Ddeddf Gymraeg newydd. Cafwyd cyfres o gyflwyniadau hefyd yn ystyried nifer o brosiectau arloesol fel Twf a gwaith y fenter iaith leol yng Ngwynedd.

## 3.2. Iaith Gwaith

Lansiais Iaith Gwaith, menter Bwrdd yr Iaith, yn Cross Hands ar 3 Tachwedd. Ffordd syml ac effeithiol o ddangos bod gwasanaeth dwyieithog ar gael yw Iaith Gwaith. Mae'r cynllun yn cynnig pecyn sy'n cynnwys bathodyn a deunydd cysylltiedig ac mae wedi'i lansio am yr eildro bellach yn sgil ymchwil a gomisiynwyd gan y Bwrdd. Hyd yma, mae dros 80,000 o fathodynau Iaith Gwaith wedi'u dosbarthu (45,000 o fathodynau safonol a 35,000 o fathodynau Dysgu Cymraeg). Fel rhan o ymgyrch farchnata, mae Iaith Gwaith yn noddi'r tywydd ar S4C dros yr ychydig fisoedd nesaf.

## 3.3. Llinell Cefnogi Gwaith Cartref

Yn sgil sefydlu prosiect peilot ym mis Mehefin, mae Bwrdd yr Iaith wedi lansio'i Linell Cefnogi Gwaith Cartref. Cwmni Cymad ym Mhorthmadog sy'n rheoli'r gwasanaeth, ac mae'n rhoi cymorth i rieni y mae eu plant yn mynychu ysgolion Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg gyda therminoleg yn Gymraeg. Lansiais y llinell yn Ysgol Gymraeg Casnewydd ar 14 Tachwedd. Cynhelir lansiad arall ar 23 Tachwedd yn Ysgol Bro Cernyw, Abergele.

### 3.4. Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn y Sectorau Cyhoeddus a Phreifat

Yn y cyfarfod diwethaf, mynegodd yr aelodau ddiddordeb mewn darparu a monitro gwasanaethau iaith Gymraeg. Fel y gwyr yr Aelodau, mae monitro gwasanaethau Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas â Chynlluniau Iaith Gymraeg, yn un o swyddogaethau Bwrdd yr Iaith. Llywodraeth y Cynulliad fydd yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon o fis Ebrill 2007 ymlaen. Yn y cyfamser, rwyf yn ddiolchgar i'r Bwrdd am ddarparu'r papur yn Atodiad A sy'n cynnwys y manylion a roddais i'r aelodau yn y cyfarfod diwethaf.

### 3.5. Iaith Busnes

Ar 7 Tachwedd, roeddwn yn falch o'r cyfle i ymuno ag aelodau o staff Bwrdd yr Iaith ar Orsaf Ganolog Caerdydd i roi cyhoeddusrwydd i gynllun Iaith Busnes y Bwrdd. Diben y cynllun yw tynnu sylw busnesau at bwysigrwydd cynnig dewis o ran iaith i ddefnyddwyr, a'r nod yw codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o nifer y defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg, a'u hannog i ofyn am wasanaeth dwyieithog. Dechreuodd yr ymgyrch ar 5 Tachwedd ac mae posteri'n dangos aelodau o Dîm Sector Preifat Bwrdd yr Iaith mewn amryw o sefyllfaoedd yn y gweithle wedi cael eu gweld ledled y Brifddinas, gyda'r slogan "Mae 600,000 o Ddefnyddwyr yn Defnyddio'r Gymraeg - Ydych Chi?". Mae gwefan wedi'i sefydlu i gyd-fynd â'r lansiad, a'i nod yw cynnig mwy o wybodaeth a chyngor am gynllun Iaith Busnes.

### 3.6. Gwefan Rhwydwaith Byrddau Cynllunio Ieithoedd Ewropeaidd

Ddydd Gwener, 11 Tachwedd, lansiais Wefan Rhwydwaith Byrddau Cynllunio Ieithoedd Ewropeaidd yng Nghanolfan y Mileniwm. Derbyniodd y Rhwydwaith grant Ewropeaidd yn 2003 ac mae ein Bwrdd yr Iaith ni wedi arwain y gwaith, gyda golwg ar ddysgu a rhannu arferion da ymhlith y rheini sy'n gweithio i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o ieithoedd lleiafrifol eraill yn Ewrop. Mae'r wefan yn adnodd ardderchog a bydd o ddiddordeb mawr i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynllunio iaith. Mae hefyd yn gyfle gwych i roi sylw i waith cynllunio iaith arloesol Bwrdd yr Iaith ar lwyfan fyd-eang.

## 4. Y POLISI CELFYDDYDAU

### 4.1. Celfyddydau Gwirfoddol Cymru, Canolfan y Mileniwm

Daeth nifer fawr o bobl ynghyd i Gynhadledd Celfyddydau Gwirfoddol Cymru yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Rhoddais anerchiad ar bwysigrwydd y celfyddydau gwirfoddol ac amatur yng Nghymru, yn benodol eu pwysigrwydd hanesyddol i ddiwylliant Cymru trwy ein heisteddfodau, corau, bandiau pres ac arian a'n gwyliau.

## 5. DARLLEDU A'R CYFRYNGAU

### 5.1. Gwyl Delweddau Symudol Myfyrwyr: Ffresh

Bum yn bresennol mewn Derbyniad yn y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd ar 10 Tachwedd i godi ymwybyddiaeth o wyl delweddau symudol myfyrwyr, Ffresh, ac i gyhoeddi rhestr fer gwobrau Ffresh 2006.

Cynhelir pedwaredd Gwyl Ffresh yn Aberystwyth ym mis Chwefror 2006. Mae'n dathlu doniau myfyrwyr sy'n astudio'r celfyddydau symudol ar lefel HND neu'n uwch ac yn rhoi cyngor ymarferol i fyfyrwyr sydd am ddilyn gyrfa yn y diwydiant celfyddydau symudol. Mae'n gyfle i arddangos doniau, i fyfyrwyr asesu'r gystadleuaeth, i gyfarfod a rhwydweithio â phobl sy'n gweithio yn y diwydiant a allai gynnig gwaith iddynt. Mae hefyd yn gyfle i aelodau'r cyhoedd weld gwaith doniau'r dyfodol.

### 5.2. Symposiwm Rhyngwladol Mercator ar Ieithoedd Lleiafrifol Ewropeaidd

Bum yn bresennol ar ail ddiwrnod y symposiwm tri diwrnod ar ieithoedd lleiafrifol Ewrop a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 26-28 Hydref. Y thema oedd 'Cyfieithu Diwylliant, Diwylliant Cyfieithu: Ieithoedd mewn Ffilm, Teledu a Llenyddiaeth'.

Daeth cynrychiolwyr o bob ran o Ewrop ynghyd i drafod pa effeithiau y gallai cyfieithu gweithiau diwylliannol i ieithoedd lleiafrifol eu cael ar iaith a diwylliant llai. Trafodwyd problemau cyfieithu llenyddiaeth a barddoniaeth, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r ffilm a wnaed o farddoniaeth Cymru, Dal Yma Nawr, a throsiad Hamlet i'r Gymraeg. Dyma'r pedwerydd symposiwm rhyngwladol i gael ei drefnu gan Mercator Cyfryngau a Phrifysgol Cymru, Aberystwyth.

## 6. AMGYLCHEDD HANESYDDOL

### 6.1. Grantiau i Adeiladau Hanesyddol

Mae Cadw yn cynnig grantiau ar gyfer atgyweirio ac adfer adeiladau hanesyddol gorau Cymru a gwella ardaloedd cadwraeth yn weledol ac mae wedi rhoi tua £13 miliwn dros y pum mlynedd diwethaf. Heb y grant hwn, byddai llawer o'r adeiladau hyn wedi bod mewn perygl mawr o gael eu colli. Cynigir y grantiau ni waeth pwy yw sy'n berchen arnynt ac mae rhai wedi'u cyfeirio at y sector gwirfoddol; mae grantiau eraill wedi helpu i ariannu’r gwaith o addasu'r adeiladau ar gyfer eu hailddefnyddio er budd cymunedau lleol.

Rwyf wedi cyhoeddi manylion y gyfran ddiweddaraf o grantiau, sef cyfanswm o fwy na £233,000, yn amrywio o £1,050 i £51,000 ar gyfer pedwar ar ddeg o adeiladau ledled Cymru. Mae pob Aelod Cynulliad wedi cael gwybod am y grantiau hyn, ac anfonwyd llythyrau ar wahân at ACau rhanbarthol.

Ymhlith y prosiectau a fydd yn elwa ar yr arian grant diweddaraf hyn fydd Amgueddfa Pont-y-pwl. Mae Ymddiriedolaeth Amgueddfa Tor-faen yn adfywio'r adeilad clasurol hwn o'r 19fed ganrif fel cyfleuster cymunedol fydd yn gartref i amgueddfa ac oriel gelf, ac mae £51,000 wedi'i gynnig i atgyweirio gwedd allanol hanesyddol yr adeilad.

Mae adeilad Celf a Chrefft Sefydliad yr Eglwys yn Llanfairfechan, Conwy yn un o'r enghreifftiau gorau o'i fath yng Nghymru, a chynigiwyd grant o £24,800 tuag at wneud gwaith ar y to a nwyddau dwr glaw a fydd yn galluogi'r Ymddiriedolwyr i warchod ei gymeriad hanesyddol.

## 7. DIWRNOD Y LOTERI GENEDLAETHOL

Llynedd, roedd y Loteri Genedlaethol yn ddeg oed, a chynhaliwyd digwyddiadau gan brosiectau a ariannwyd gan y Loteri ledled y wlad i ddathlu'r achlysur. Eleni, penderfynwyd y dylid nodi'r achlysur eto, a chynhaliwyd Diwrnod y Loteri Genedlaethol ar 5 Tachwedd.

Unwaith eto, bu prosiectau a gafodd arian gan y Loteri o bob cwr o Gymru yn cymryd rhan, a bu 20 ohonynt yn cynnal digwyddiadau i nodi'r achlysur. Rwy'n falch o ddweud bod KPC Youth o Ben-y-bont ar Ogwr wedi ennill un o Wobrau'r Loteri Genedlaethol yn y categori Ysbrydoliaeth, er gwaetha'r gystadleuaeth frwd o bob rhan o'r DU. Mae KPC Youth wedi defnyddio arian y Loteri i ddenu miloedd o bobl ifanc oddi ar y strydoedd trwy gynnig cyfle iddynt fanteisio ar wasanaethau gwybodaeth, cyrsiau cyfrifiadurol, cyfleusterau chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Yn benodol, mae KPC Youth yn targedu plant sydd mewn perygl o droseddu, ac mae'r staff yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol. Ers sefydlu'r clwb ieuenctid, mae nifer y troseddau yn y stryd a chan bobl ifanc a throseddau'n erbyn y drefn gyhoeddus wedi gostwng yn sylweddol, yn ôl yr heddlu lleol.

Efallai i chi sylwi hefyd ar Fws Diwrnod y Loteri Genedlaethol yn teithio o gwmpas y wlad, yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r arian a roddir i Achosion Da yng Nghymru. Dechreuodd y Bws ar ei daith yn Llangefni ddydd Llun, 31 Hydref, gan alw yn Wrecsam ddydd Mawrth, Aberystwyth a Machynlleth ddydd Mercher, Hwlffordd ddydd Iau, Pontypridd ddydd Gwener gan ddod i ben ei daith yng Nghaerdydd ar Ddiwrnod y Loteri Genedlaethol.

Un o'r materion a oedd yn cael cyhoeddusrwydd ar y Bws oedd y rhaglenni ariannu newydd y mae Cronfa'r Loteri Fawr yn bwriadu eu lansio. Rwyf yn bwriadu rhoi cyfarwyddiadau polisi newydd i'r Gronfa yn ddiweddarach yn y mis. Bydd y cyntaf o'r rhaglenni newydd, Pobl a Lleoedd, yn cael ei lansio ar 20 Tachwedd.

Gwerth tua £66 miliwn, bydd y rhaglen Pobl a Lleoedd yn ariannu prosiectau sy'n gweithio i adfywio cymunedau, gwella cysylltiadau cymunedol, amgylcheddau lleol ac amwynderau cymunedol. Bydd yr arian ar gael fel arian cyfalaf ac arian refeniw a gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cymunedau neu gymunedau o fuddiant.

Yr eitem arall o ddiddordeb mewn perthynas ag arian y Loteri yng Nghymru yw'r Adolygiad o Achosion Da Ar Ôl 2009. Bydd yr Adolygiad, sydd ar fin cael ei gyhoeddi, yn edrych ar y gwaith a wnaed mewn perthynas ag achosion da ym maes y celfyddydau a ffilm, chwaraeon a threftadaeth ers lansio'r Loteri

Cenedlaethol. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n cynnal yr adolygiad, wedi'i gwneud yn glir mai chwilio y mae am ganllawiau ar yr hyn y dylai'r Loteri geisio'i ariannu yn y meysydd hynny, o 2009 ymlaen yn hytrach na mynd ati i newid y drefn yn sylfaenol.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos â dosbarthwyr y Loteri i roi cyhoeddusrwydd i'r Adolygiad ledled Cymru, er mwyn sicrhau y bydd gan bobl Cymru gyfle i leisio'u barn. Mae'n amlwg y bydd rhanddeiliaid am fod â rhan yn y broses, ond mae angen clywed barn aelodau'r cyhoedd hefyd, gan mai nhw yw'r rhai sy'n talu am arian y Loteri ar gyfer achosion da, ac yn elwa arno hefyd, gobeithio.

### 8. NEWIDIADAU STAFF

### 8.1. Cyfarwyddwr Newydd Cadw

Mae'n bleser gennyf hysbysu'r Pwyllgor fod Marilyn Lewis, Cyfarwyddwr newydd Cadw, wedi dechrau ar ei swydd ar 31 Hydref.

Penodwyd Mrs Lewis ar ôl proses recriwtio allanol, a chyn hynny, hi oedd Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Dysgu a Diwylliant, ar Gyngor Sir Swydd Amwythig. Mae'n archifydd gyda chymwysterau proffesiynol, ac mae ganddi radd MBA. Yn ei swydd flaenorol, roedd yn gyfrifol am wasanaethau diwylliannol, dysgu i oedolion a hyfforddiant, gan oruchwylio 650 o staff.

Bydd Marilyn yn gweithio yn swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad, yn Nantgarw.

### 8.2. Y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Yn ddiweddar, bu newid busnes yn y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Mae Margaret Evans wedi ymgymryd â rôl strategol, yn gweithio ar y Rhaglen Newid ac uno'r CCNCau, paratoi ar gyfer y Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru a materion yn ymwneud â'r celfyddydau. Gwilym Evans yw Pennaeth Dros Dro y Gyfarwyddiaeth dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon am bob maes gwaith arall. Bydd y trefniant yn parhau am dri mis, i ddechrau.

### 9. YMWELIADAU A CHYFARFODYDD ERAILL

- Cynllun Cyfranogi yn Lansiad Beicio "Go-ride"
- Dringo'r Wyddfa gyda David Pickering, URC ac ITV Cymru
- Cynhadledd Sgiliau Gweithredol, Hensol
- David Currie, Cadeirydd Ofcom

## Atodiad A: Gwasanaethau Iaith Gymraeg yn y Sectorau Cyhoeddus a Phreifat

## Gwasanaethau drwy Gyfrwng y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus

1. Mae yna ystod eang o wasanaethau yn cael eu cynnig i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg gan gyrff cyhoeddus. Cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn. Sail cynlluniau iaith yw Deddf yr Iaith 1993 ac mae Bwrdd yr Iaith (y Bwrdd), gyda chymeradwyaeth y Senedd, wedi paratoi Canllawiau Statudol ar gynnwys Cynlluniau [1996]. Nod cynlluniau iaith yw gwireddu'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

2. Mae'r Bwrdd bellach wedi cytuno dros 320 o Gynlluniau Iaith gydag ystod o gyrff sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Cynlluniau yn cwmpasu Awdurdodau Unedol, Adrannau ac Asiantaethau Llywodraethol, Cynghorau Tref a Chymuned, Ymddiriedolaethau Iechyd, Byrddau Iechyd Lleol, y Llysoedd a'r Heddluoedd, a chyrff Addysgol, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach a Phrifysgolion. Ceir rhestr lawn o gyrff gyda Chynlluniau Iaith sydd wedi eu cymeradwyo ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg: http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/cy/cynnwys.php?cID=6&pID=109&nID=307

3. Mae rhestr o'r cyrff hynny sy'n paratoi Cynlluniau Iaith o'r newydd, i'w cymeradwyo gan y Bwrdd, i'w gael yn Atodiad 1.

4. Mae gofyn i gyrff, wrth baratoi eu cynlluniau iaith, nodi pa gamau fyddant yn eu cymryd i gyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Amgaeir crynodeb o'r Canllawiau – gweler Atodiad 2. Ar sail y canllawiau, disgwylir, ymhlith pethau eraill, i gyrff nodi sut y byddant yn gohebu â'r cyhoedd a dosbarthu gwybodaeth yn Gymraeg, darparu ffurflenni dwyieithog, cynnig gwasanaethau wyneb yn wyneb trwy gyfrwng y Gymraeg a mesurau tebyg.

5 Mae'n bwysig pwysleisio elfen ddeinamig cynlluniau iaith. Nid yw natur nag ystod gwasanaethau yn aros yn yr unman. Mae'r Bwrdd yn cadw cyswllt agos efo cyrff cyhoeddus nid yn unig o ran monitro yr hyn a ddarperir ar hyn o bryd ond hefyd er mwyn sicrhau bod unrhyw wasanaethau newydd yn cyd-fynd a chynnwys cynlluniau. Un enghraifft o hyn yw'r trafodaethau mae'r Bwrdd yn ei gael efo'r Swyddfa Gartref o ran datblygu Cardiau Adnabod.

6. Mae cynlluniau hefyd yn amcanu i sicrhau bod yna gynnydd dros amser yn y gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid pwysleisio bod natur y gwasanaeth a gynigir i'r cyhoedd yn gallu amrywio'n sylweddol ar sail lleoliad y corff (gan gofio fod nifer sylweddol o gyrff sy'n gwasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru wedi eu lleoli tu allan i Gymru). Mae hyn yn arbennig o wir o ran y cyswllt wyneb i wyneb a thrafod ar y ffôn. Wrth ystyried gwasanaethau megis y rhai a ddarperir gan yr Adran

Gwaith a Phensiynau, byddai'n resymol disgwyl ystod ehangach o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai ardaloedd o Gymru o gymharu ag eraill. Mae'r un yn wir am gyrff eraill, megis Awdurdodau Lleol, Heddluoedd ac yn y blaen. Teg nodi hefyd bod argaeledd gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn amrywio oddi fewn i gyrff, megis yn achos Awdurdodau Lleol a Llywodraeth y Cynulliad.

7. Gan ddal yr uchod mewn cof, ac ehangder y cyrff a'r gwasanaethau a gwmpasir ganddynt, dyma restr dethol o rai gwasanaethau penodol a gynigir gan gyrff cyhoeddus:

| **Y Corff** | **Rhai gwasanaethau drwy gyfrwng**<br><br>**y Gymraeg** |
|---|---|
| Cyngor Cefn Gwlad | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan / ffurflenni |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan / ffurflenni |
| Asiantaeth Cynnal Plant | Llinell ffôn Gymraeg penodol / gwefan / ffurflenni |
| Gwasanaeth Symud Gwartheg (Asiantaeth Taliadau Gwledig) | Llinell ffôn Gymraeg penodol / gwefan / ffurflenni |
| Comisiwn Coedwigaeth | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan / ffurflenni |
| Cronfa Loteri Fawr | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan / ffurflenni |
| Llywodraeth y Cynulliad | Gwefan |
| Cyllid a Thollau EM | Llinell ffôn Gymraeg penodol / ffurflenni dwyieithog / Hunan-asesu ar-lein |
| DVLA | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan / ffurflenni |
| Asiantaeth Safonau Gyrru | Llinell ffôn Gymraeg penodol / sefyll y prawf |
| VOSA | Canolfan ymholiadau ffôn efo gwasanaeth Cymraeg / tystysgrifau MOT / ffurflenni |
| Cynilion Cenedlaethol | Llinell ffôn Gymraeg penodol/ffurflenni/gwefan |
| Comisiwn Cyfle Cyfartal | Llinell ffôn / cyhoeddiadau |
| Ty'r Cwmnïau | Llinell ffôn Gymraeg penodol / ffurflenni |
| Swyddfa Ystadegau | Llinell ffôn Gymraeg penodol / cofrestru cofrestriadau yn ddwyieithog |

| | |
|---|---|
| Swyddfa Archwilio | Gwefan |
| Awdurdod Datblygu Cymru | Llinell ffôn / gwefan |
| Comisiynydd Plant Cymru | Llinell ffôn / gwefan |
| Gyrfa Cymru (6 cwmni rhanbarthol) | Gwefan |
| Golwg ar Bost | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / ffurflenni |
| Golwg ar Ynni | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan / ffurflenni |
| Galw Iechyd Cymru | Llinell ffôn Gymraeg penodol |
| S4C | Llinell ffôn Gymraeg penodol/gwefan |
| Asiantaeth Basport | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / ffurflenni cais |
| Gwasanaeth Pensiwn | Llinell ffôn Gymraeg penodol / ffurflenni mwyaf cyffredin yn ddwyieithog |
| Canolfan Byd Gwaith | Llinell ffôn Gymraeg penodol / ffurflenni mwyaf cyffredin yn ddwyieithog |
| Cyfarwyddiaeth Anabledd a Gofalwyr | Llinell ffôn Gymraeg penodol / ffurflenni mwyaf cyffredin yn ddwyieithog |
| Trwyddedu Teledu | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / ffurflenni dwyieithog |
| Post Brenhinol / Parcelforce | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / mwyafrif y wefan a ffurflenni'n ddwyieithog |
| Arolwg Ordnans | Llinell ffôn Gymraeg penodol |
| BBC | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan gyda chyfran uchel o wasanaethau Cymraeg |
| Bwrdd Croeso Cymru | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd |
| Comisiwn Henebion Brenhinol | Llinell ffôn Gymraeg penodol / gwefan |
| Canolfan Mileniwm | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan / archebu ar-lein |
| Cyngor Defnyddwyr Cymru | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan |
| Heddlu Gogledd Cymru | Gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob derbynfa |
| Cyngor Sir Gwynedd | Llinellau ffôn / gwefan / derbynfeydd gwbl ddwyieithog |

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Switsfwrdd gwbl ddwyieithog / cyswllt Cymraeg ym mhob maes gwasanaeth |
| Cyngor Sir Ddinbych | Canolfan Gwasanaethau cwsmer efo dewis iaith |
| Cyngor Sir Gâr | 3 prif ganolfan cwsmeriaid efo gwasanaeth dwyieithog / Llinell ffôn Gymraeg penodol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor |
| Cyngor Sir Fflint | Rhai llinellau cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Sefydliadau Addysg Bellach | Rhai cyrsiau/modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg – y prif ddarparwyr yw Coleg Menai a Choleg Meirion Dwyfor |
| Sefydliadau Addysg Uwch | Rhai cyrsiau/modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg – y prif ddarparwyr yw PC Bangor, PC Aberystwyth a Choleg y Drindod, Caerfyrddin |
| Adran Iechyd | Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd - archebu ar-lein neu drwy ffurflen |

8. Fel nodwyd uchod, mae'r Bwrdd hefyd yn gweithio efo cyrff i ddatblygu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys:

| **Y Corff** | **Gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg** |
|---|---|
| Awdurdodau Lleol | Datblygu llinell gymorth Gymraeg penodol i bob Awdurdod Lleol (rhai eisoes yn darparu'r gwasanaeth) / Cyngor diweddara'r Bwrdd i Awdurdodau Lleol yn gofyn iddynt ddatblygu'r gwasanaethau wyneb i wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg e.e. mewn canolfannau hamdden, derbynfeydd |
| Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ac eraill | Sefydlu canolfan alwadau ar y cyd – llinellau penodol ar gyfer y Gymraeg |
| Prifysgol Cymru | Gwefan yn nodi'r cyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg fesul sefydliad |
| UCAS | Datblygu llwybr ymgeisio electronig ar y we ar gyfer darpar fyfyrwyr |

## Gwasanaethau drwy Gyfrwng y Gymraeg – Cyrff Preifat

9. Mae rhai cyrff sector breifat yn darparu gwasanaethau penodol i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn gwneud hyn ar sail wirfoddol, ac efo anogaeth a chymorth y Bwrdd. Dyma enghreifftiau o'r math hyn o wasanaethau a ddarperir:

| **Y Corff** | **Gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg** |
|---|---|
| Banc Barclays | Llinell ffôn Gymraeg penodol / Peiriannau Arian Awtomatig (PAA) |
| Banc HSBC | Llinell ffôn Gymraeg penodol / PAA |
| Banc NatWest | Llinell ffôn Gymraeg penodol / PAA |
| Banc Lloyds | Llinell ffôn Gymraeg penodol / PAA |
| Cymdeithas Adeiladu Halifax | PAA |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | PAA |
| Cwmni Principality | Gwefan |
| Microsoft | Darparu meddalwedd – XP, Office 2002 |
| Trenau Arriva Cymru | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith |
| Nwy Prydain | Llinell ffôn Gymraeg penodol / biliau dwyieithog |
| Manweb/Scottish Power | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / ffurflenni |
| Traveline Cymru | Llinell ffôn yn cynnig dewis iaith / gwefan |
| BT | Llinell ffôn Gymraeg penodol / ymholiadau rhifau ffôn Gymraeg penodol |

10. Yr eithriad i'r uchod yw'r cwmnïau dwr. Mae rhain yn gyrff preifat sydd wedi eu henwi o dan y Ddeddf Iaith, ac maent felly yn paratoi, neu eisoes wedi cytuno, cynlluniau iaith efo'r Bwrdd, ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau yn unol â'u cynlluniau.

| **Y Corff** | **Rhai gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg** |
|---|---|
| Dwr Cymru | Llinell ffôn Gymraeg penodol / gwefan / ffurflenni |

| | |
|---|---|
| Dwr Dyffryn Dyfrdwy | Biliau dwyieithog / datblygu gwasanaethau eraill yn ddwyieithog |

## Prosiectau Bwrdd yr Iaith

11. Mae gan y Bwrdd nifer o brosiectau ar y gweill sy’n ymwneud yn benodol â gwella’r ddarpariaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg i’r cyhoedd yng Nghymru.

Marchnata Gwasanaethau Cyhoeddus – Mae’n bwysig fod y cyhoedd yn gwneud defnydd o’r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sy’n cael eu darparu. Rydym eisoes wedi comisiynu a derbyn arolwg barn ar y defnydd o wasanaethau gan y cyhoedd. Cam nesaf y prosiect fydd datblygu negeseuon penodol, fydd yn cael eu treialu mewn grwpiau ffocws, gyda’r nod o ysgogi’r cyhoedd i wneud defnydd o wasanaethau cyhoeddus Cymraeg. Ar sail canlyniadau’r gwaith hwn, byddwn yn datblygu ymgyrchoedd marchnata penodol i hybu’r defnydd o wasanaethau Cymraeg, gan gydweithio efo cyrff cyhoeddus.

Sgiliau Dwyieithog – Un o’r ffactorau sy’n llesteirio darpariaeth cyfrwng Cymraeg o wasanaethau i’r cyhoedd yw nad yw cyrff yn aml yn rhoi ystyriaeth briodol i’w anghenion sgiliau dwyieithog, na’u cynllunio mewn dull priodol, yn unol ag ymrwymiadau eu cynlluniau iaith. I’r perwyl hyn, mae’r Bwrdd wedi comisiynu astudiaeth o sut y gweithredir cymalau cynlluniau iaith yn ymwneud â sgiliau dwyieithog, gyda’r nod o sicrhau bod cyngor manwl yn cael ei baratoi i helpu cyrff weithredu’r elfen hwn o’u cynlluniau mewn dull effeithiol. Y nod fydd cwblhau’r adroddiad a pharatoi cyngor statudol i gyrff cyhoeddus ar y mater hyn erbyn haf 2006.

Gweithleoedd Dwyieithog – Mae cynyddu’r defnydd ymarferol o’r Gymraeg o fewn gweithleoedd cyhoeddus yn cyfrannu tuag at well darpariaeth o wasanaethau dwyieithog i’r cyhoedd. Mae’r Bwrdd newydd gychwyn prosiect efo dau gorff cyhoeddus, Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ceredigion, i ystyried dulliau i hybu’r defnydd o’r Gymraeg o fewn y ddau gorff. Hyderir y bydd y gwaith hwn hefyd yn arwain at argymhellion ymarferol i gyrff cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Y nod yw cwblhau’r gwaith a’r argymhellion erbyn cychwyn 2007.

12. Yn ogystal a hyn, mae’r Bwrdd yn cynnal ymgyrchoedd penodol i hybu’r defnydd ymarferol o’r Gymraeg ar lawr gwlad:

Iaith Gwaith – Prif amcan yr ymgyrch hwn yw sicrhau bod modd adnabod siaradwyr Cymraeg o fewn y gweithle. Mae hyn o gymorth o ran ysgogi’r defnydd o’r Gymraeg yng nghyd-destun gwasanaethau wyneb i wyneb. Mae brand yr ymgyrch hwn wedi cael ei ail-ddylunio a’i ail-lawnsio yn ddiweddar.

Cymraeg yn Gyntaf – Pwrpas yr ymgyrch hwn yw annog Cymry Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf mewn cyd-destunau cymdeithasol, sy'n cynnwys derbyn gwasanaethau cyhoeddus a phreifat. Mae'r Bwrdd newydd redeg yr ymgyrch am yr eildro, am gyfnod o wythnos, mewn 15 tref lle mae yna ganran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg.

## Trefniadau Monitro

13. Mae cynlluniau iaith cyrff cyhoeddus yn nodi bod angen gosod trefniadau monitro priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cyrff yn gweithredu eu cynlluniau mewn dull effeithiol (gweler Atodiad 2). O ystyried yr ystod eang o gyrff mae'r Bwrdd yn gyfrifol am eu rheoleiddio, ac er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei brif-ffrydio i waith y cyrff, mae'r pwyslais ar sicrhau bod cyrff yn hunan-fonitro. Mae disgwyl i'r rhan fwyaf o gyrff baratoi adroddiadau monitro, gan ddarparu copi i'r Bwrdd, yn amlinellu eu gweithrediad o'u cynlluniau. Rhydd hyn dystiolaeth o berfformiad y corff o ran gwahanol agweddau o'r cynllun.

14. Yn ogystal a dulliau ysgrifenedig, mae'r Bwrdd yn gweithredu yn y maes hwn drwy gadw cyswllt personol efo cyrff a chael cyfarfodydd rheolaidd. Rhaid cofio, fodd bynnag, bod y nifer o gyrff sy'n gyfrifoldeb i'r Bwrdd yn parhau i dyfu. Rydym felly yn blaenoriaethu ein cyswllt efo'r ystod o gyrff sydd â chynlluniau iaith. Rhydd y cyswllt uniongyrchol hyn well ddealltwriaeth inni o ran sut mae corff yn gweithredu'i gynllun ac mae'n caniatáu inni ddatblygu perthynas waith effeithiol efo'r cyrff dan sylw.

15. Law yn llaw â hyn, mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn tystiolaeth am y gwasanaeth a ddarperir gan gyrff drwy ddulliau eraill. Cawn wybodaeth yn uniongyrchol gan y cyhoedd, ar sail adborth neu gwynion. Mae cyfundrefn benodol ar waith i ddelio â chwynion. Mae'r Bwrdd hefyd yn comisiynu cip arolygon neu adolygiadau yn achlysurol. Gall rhain amrywio o fod yn arolwg cynhwysfawr o sut mae corff penodol yn gweithredu ei gynllun iaith i gip arolwg o sut mae ystod o gyrff yn gweithredu agweddau penodol o'u Cynlluniau. Lle mae gan y Bwrdd amheuon nad yw Cynllun yn cael ei weithredu'n briodol, gall ymchwilio o dan y Ddeddf.

16. Rydym yn adolygu ein trefniadau monitro yn gyson er mwyn sicrhau bod yna drefniadau effeithiol ar waith, a bod yna gydbwysedd rhwng yr hyn rydym yn gofyn i gyrff ei gyflawni. Mae gofyn i'r trefniadau adlewyrchu swyddogaethau gwahanol gyrff - felly mae cynlluniau sefydliadau addysgol, er enghraifft yn gofyn iddynt fonitro darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

17. O ran cyrff preifat, ag eithrio'r cwmnïau dwr, mae swyddogion y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd ag ystod o gyrff yn y sector breifat er mwyn eu hannog i ddatblygu neu ehangu eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

**Hydref 2005**

## Atodiad 1

| Paratoi Cynllun Iaith | Statws y corff |
|---|---|
| Adran Materion Cyfansoddiadol | Corff y Goron |
| Swyddfa Gwarchodaeth y Cyhoedd | Corff y Goron |
| Ofcom | Gwirfoddol |
| Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon | Corff y Goron |
| Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr | Statudol |
| Buddsoddwyr mewn Pobl | Statudol |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Statudol |
| Comisiynydd Plant Cymru | Statudol |
| Comisiwn Hawliau Anabledd | Statudol |
| Swyddfa Ganolog Gwybodaeth | Corff y Goron |
| Awdurdod Gwasanaethau Ariannol | Statudol |
| Cyllid a Thollau EM | Corff y Goron |
| Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr | Yn dilyn yr uno rhwng Arolygwyr Cerbydau a Rhwydwaith Ardaloedd Traffig |
| Swyddfa Batent | Corff y Goron |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Yn dilyn yr uno rhwng Comisiwn Archwilio a Swyddfa Archwilio Cenedlaethol |
| Adran Iechyd | Corff y Goron |
| Cyngor Meddygol Cyffredinol | Statudol |
| Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Statudol |

| | |
|---|---|
| Comisiwn Elusennau | Corff y Goron |
| Asthma UK | Gwirfoddol |
| NAAPS Cymru | Gwirfoddol |
| RSPB | Gwirfoddol |
| WRVS | Gwirfoddol |
| RNLI | Gwirfoddol |
| RSPB | Gwirfoddol |
| Help i’r Henoed | Gwirfoddol |
| Cefnogaeth Cartref | Gwirfoddol |
| Dwr Hafren Trent | Statudol |
| Dyfrffyrdd Prydain | Statudol |
| Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain | Statudol |
| Trenau Arriva Cymru | Gwirfoddol |
| Dyfrlais | Gwirfoddol |
| Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu | Gwirfoddol |
| Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol | Statudol |
| Sefydliad Tai Siartredig yng Nghymru | Gwirfoddol |
| Cymdeithasau Tai | Yn unol â dyletswyddau rheoliadol |
| Gwasanaeth Carchardai EM | Corff y Goron |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Statudol |
| Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr | Statudol |
| Awdurdod Digolledu am Niweidiau Troseddol | Statudol |
| Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddwl | Statudol |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol | Statudol |
| Cynghorau Cymuned (50) | Statudol |
| Coleg Morgannwg | Statudol |

| | |
|---|---|
| Coleg y Barri | Statudol |
| Coleg Penybont | Statudol |
| Coleg Garddwriaethol Cymru | Statudol |
| Coleg Harlech | Statudol |
| Coleg Iâl | Statudol |
| Coleg Catholig Dewi Sant | Statudol |
| Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan | Statudol |
| Athrofa Addysg Uwch Gogledd Cymru | Statudol |
| Prifysgol Diwydiant | Statudol |
| Fforwm | Statudol |
| UCAS | Statudol |
| Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol | Statudol |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru | Statudol |
| Dysg | Gwirfoddol |
| NIACE Dysgu Cymru | Gwirfoddol |
| ContinYou | Gwirfoddol |
| Automotive Skills | Ar sail contract |
| Asset Skills | Ar sail contract |
| Cogent | Ar sail contract |
| Creative & Cultural Industries | Ar sail contract |
| Construction Skills | Ar sail contract |
| Energy & Utility Skills | Ar sail contract |
| e-skills | Ar sail contract |
| SEMTA | Ar sail contract |
| Skills for Ligistics | Ar sail contract |
| Skillfast | Ar sail contract |
| SkillsActive | Ar sail contract |

| | |
|---|---|
| SummitSkills | Ar sail contract |
| Lantra | Ar sail contract |
| People 1st | Ar sail contract |
| Skillsmart | Ar sail contract |
| Financial Services Skills Council | Ar sail contract |
| Skills for Health | Ar sail contract |
| GoSkills | Ar sail contract |
| Improve | Ar sail contract |
| Skills for Care | Ar sail contract |
| Lifelong Learning | Ar sail contract |
| Proskills | Ar sail contract |

## Atodiad 2

### CANLLAWIAU YNGHYLCH FFURF A CHYNNWYS CYNLLUNIAU

### Fel y'u cymeradwyd gan y Senedd ar 19 Gorffennaf, 1995

Yn yr hyn sy'n dilyn ystyr "sefydliad" yw corff cyhoeddus sy'n paratoi cynllun o dan Rhan II y Ddeddf neu berson yn gweithredu fel gwas neu asiant y Goron sy'n paratoi cynllun iaith Gymraeg, ac ystyr "cynllun" yw cynllun a baratowyd gan gorff cyhoeddus o dan Rhan II y Ddeddf neu gynllun iaith Gymraeg a baratowyd gan berson yn gweithredu fel gwas neu asiant y Goron. Bydd sefydliad sy'n paratoi cynllun yn rhoi sylw i'r canllawiau canlynol ynghylch ffurf a chynnwys cynlluniau:

### CANLLAW YNGHYLCH FFURF CYNLLUNIAU

1. Dylid cyflwyno'r cynllun yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ar ffurf sy'n addas i'w chyhoeddi i aelodau'r cyhoedd y mae'r sefydliad yn delio â hwy.

### CANLLAW YNGHYLCH CYNNWYS CYNLLUNIAU

### CYFFREDINOL

2. Dylai'r cynllun bennu'r mesurau y bwriada'r sefydliad eu cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn adran 5 y Ddeddf, a'r ffordd y

bwriada'r sefydliad weithredu pob mesur.

## CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH

3. Dylai'r cynllun bennu'r mesurau y bwriada'r sefydliad eu cymryd pan mae'n asesu effaith polisïau a mentrau newydd ac yn eu gweithredu;

4. Dylai'r cynllun bennu pa gamau fydd y sefydliad yn eu cymryd i gyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;

5. Dylai'r cynllun bennu pa safonau ansawdd y dylid eu cyrraedd wrth gyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys talu sylw i egwyddorion Siarter y Dinesydd a gyflwynwyd i'r Senedd ar 22 Gorffennaf 1991.

## DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG.

6. Dylai'r cynllun bennu pa fesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt:

(i) gohebu â'r cyhoedd;

(ii) cyfathrebu dros y ffôn gyda'r cyhoedd;

(iii) cyfarfodydd cyhoeddus (gan gynnwys gwrandawiadau, ymholiadau ac achosion cyfreithiol eraill);

(iv) cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd;

(v) delio â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill.

## WYNEB CYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

7. Dylai'r cynllun bennu'r mesurau sydd i'w cymryd er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a osodir yn y Ddeddf o safbwynt:

(i) hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad yng Nghymru;

(ii) arwyddion gwybodaeth o fewn ffiniau eiddo yng Nghymru y mae sefydliad yn berchen neu'n ddeiliad arno, gan gynnwys mannau mewnol lle mae'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt;

(iii) arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill a leolir yng Nghymru, ac y mae sefydliad yn gyfrifol amdanynt;

(iv) cyhoeddi a phrintio deunydd sydd wedi ei gyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru;

(v) pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru;

(vi) hysbysiadau i'r wasg i'w dosbarthu yng Nghymru;

(vii) deunydd cyhoeddusrwydd i'w ddosbarthu yng Nghymru;

(viii) ymgyrchoedd hysbysebu a deunyddiau arddangos wedi eu cyfeirio at y cyhoedd yng Nghymru;

(ix) deunydd a ddefnyddir ar gyfer ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yng Nghymru;

(x) dulliau ymateb sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyhoeddusrwydd yng Nghymru;

(xi) hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebu recriwtio staff yng Nghymru.

## GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

8. Dylai'r cynllun bennu:

(i) mesurau i sicrhau fod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i gyflwyno gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg;

(ii) mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle ystyrir ei fod yn ddymunol er mwyn darparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg;

(iii) mesurau i asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg a mesurau ar gyfer diwallu'r angen hwnnw;

(iv) y trefniadau gweinyddol y bydd y sefydliad yn eu gwneud i hwyluso'i gynllun;

(v) y camau sydd i’w cymryd er mwyn sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau i’r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau’r cynllun. Mae hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) gwasanaethau sy’n cael eu contractio allan;

(vi) y camau sydd i’w cymryd i arolygu gweithredu’r cynllun;

(vii) targedau y gellir mesur gweithredu’r cynllun yn eu herbyn;

(viii) y camau sydd i’w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth sy’n cymharu perfformiad y sefydliad â’r safonau a nodir yn y cynllun.